**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 4 TACHWEDD 2024**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Glyn Griffiths, Siân Cwper, Bethan Gritten, June Jones, Beti Williams

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Cenwyn ap Tomos, Hanna Jones

Mynegodd Y Cynghorydd Bethan Gritten ei dymuniad i ymddiswyddo, gan ei bod yn rhagweld y bydd yn brysur efo amrywiol weithgareddau dros y flwyddyn i ddod. Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad a'u diolch am ei chwmni a'i chyfraniad gwerthfawr.

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Datganodd y Cynghorydd Bethan Gritten fuddiant yn Eitem 5.5, gan fod ei phartner wedi cynnig pris i wneud y gwaith o osod y gysgodfan yn debygol o gynnig pris i wneud y gwaith. Roedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac felly fe adawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma.

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 2 Medi 2024.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 2 Medi 2024

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Bethan Gritten

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 5.1 Y Ganolfan

Mae'r Crynwyr wedi dangos diddordeb i logi'r Ganolfan ar gyfer cyfarfodydd am ryw ddwy awr bob bore Sul.

Cytunwyd ar bris o £20-25.

**Cynnig:** Siân Cwper

**Eilio:**Glyn Griffiths

### 5.2 Goryrru Llanfrothen a gosod cyflymder 20 m.y.a.

Bu'r Heddlu yn monitro'r traffig ger y siop yn Llanfrothen.  Nid oedd hi'n glir os oedd hyn fel ymarfer hyfforddiant ai peidio.
Penderfynwyd cysylltu â'r Heddlu a GanBwyll a gofyn iddynt ddod i fonitro cyflymder ceir yn Llanfrothen yn fwy aml.
Erbyn hyn mae'r marciau gwyn ar ochr y ffordd yr oedd Cyngor Gwynedd wedi gado y byddent yn eu rhoi drwy Lanfrothen wedi eu gosod, ac fe obeithir y byddant yn arafu'r traffig.
Trafodwyd cael arwydd yn gostwng y cyflymder ar y ffordd i mewn i Lanfrothen yn fwy graddol, sef o 40 i 30 i 20, ac fe fwriedir cysylltu efo Cyngor Gwynedd am hyn, yn ogystal â symud yr arwydd 20 m.y.a. wrth ddod i mewn i Lanfrothen o Tan Lan, fel bod y traffig sy'n dod i mewn i Lanfrothen yn ei weld yn gynt.

**5.3 Mynwent Tan Lan**

Cafwyd cwyn fod moch daear wedi bod yn tyrchu tywarchen gwair ar ben bedd yn y fynwent, er mae'n debyg fod y gweithgaredd yn lleihau. Mae gan foch daear ddiddordeb mewn tywyrch newydd. Cytunwyd i fonitro'r sefyllfa.

**5.4 13 Garreg Frech**

Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd y byddant yn bwrw ymlaen efo erlyn unrhyw ddyled treth cyngor sydd ar yr eiddo, gan fod ganddynt yn awr bolisi adennill  By dyledion mewn lle.  Byddai hynny'n golygu gallu i werthu'r eiddo pe na fyddai unrhyw ddyfarniad am ddyled yn y llys yn cael ei dalu.
Fodd bynnag, yn siomedig iawn, parheir i ddisgwyl ateb gan Adran Tai ac Eiddo ar fwriad Cyngor Gwynedd i ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'r mater wedi cael ei uchafu i adran gwynion Cyngor Gwynedd er mwyn ceisio cael ymateb.

**5.5 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen**

Cafwyd amrywiol brisiau ar gyfer codi cysgodfan yn Llanfrothen.
Cytunwyd i dderbyn pris Llechen Lan am £9,040 a TAW yn ychwanegol
Y bwriad yw bwrw ymlaen efo'r gwaith o Fis Ebrill 2025 ymlaen.
Yn y cyfamser, bydd angen edrych am grantiau a chyfleoedd ariannu eraill.
**Cynnig:** Nia Povey
**Eilio:** Siân Cwper

**5.6 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Bwriad y Cyngor Cymuned yw cyfarfod efo peiriannydd sifil ac ecolegydd lleol i gerdded yn y tir coediog islaw Pant y Wrach a Morawel

(Substesion). Mae angen gweld os oes modd creu llwybr er mwyn osgoi'r lle cul a pheryglus ym mhen draw'r morfa.

**5.7 Casglu Arian Diffribrilwyr**

Cytunodd Y Cynghorydd Glyn Griffiths i gasglu unrhyw arian o'r blwch casglu ym maes parcio Croesor dros fisoedd y gaeaf

**5.8 Ynni Dŵr Croesor**

Derbyniwyd £1,392.30 gan Ynni Dwr Croesor fel cyfraniad y cyngor cymuned ar gyfer 2023/24

**6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Medi 2024 £239.72

TWE £59.80

**6.2** Cyflog Clerc Hydref 2024 £239.72

TWE £59.80

**6.3** Costau banc hyd at 5 Medi 2024 £16.18

Costau banc hyd at 5 Hydref 2024 £8.00

**6.4** yu Energy Anfoneb 02003794 £18.63

yu Energy Anfoneb 02010497 £18.55

**6.5** Snowdonia Fire & Security Offer Tan Y Ganolfan, Anfoneb 11/10/2024 £174.00

**6.6** Dunn & Ellis, Cyflogres, Anfoneb 161677 - £65.70

**6.7** Derbyn taliad SumUp i'r banc 16 Medi 2024 - £9.00

**6.8** Derbyn taliad SumUp i'r banc 17 Medi 2024 - £5.00

**6.9** Derbyn taliad SumUp i'r banc 18 Medi 2024 - £5.00

**6.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 19 Medi 2024 - £5.00

**6.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 2 Hydref 2024 - £3.00

**6.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Hydref 2024 - £5.00

**6.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 11 Hydref 2024 - £5.00

**6.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 14 Hydref 2024 - £5.00

**6.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 22 Hydref 2024 - £5.00

**6.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 23 Hydref 2024 - £5.00

**6.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 28 Hydref 2024 - £18.00

**6.18** Derbyn taliad Cyngor Gwynedd i'r banc am logi'r Ganolfan ar gyfer etholiad 2024

**6.19** Balans yn y prif gyfrif 29 Hydref 2024 £14,877.13

**6.20** Balans yn y cyfrif cadw 29 Hydref 2024 £23,177.89

**7. Gohebiaeth**

- Cais am rodd ariannol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025.

Penderfynwyd peidio â rhoi rhodd ariannol gan nad oedd yr Eisteddfod yng Ngogledd Cymru.

- Arolwg Dosbarthiadau a Mannau Pleidleisio Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal arolwg o ddosbarthiadau a mannau pleidleisio yng Ngwynedd. Maent yn ymwybodol fod pleidleisio wedi bod yn cymryd lle ar lawr cyntaf Y Ganolfan, sy'n golygu fod mynediad yn anodd i rai.

Bwriadant ymweld â'r Ganolfan er mwyn gweld a fyddai defnyddio'r llawr daear yn addas.

**8. Cynllunio**

Cais C232/0916/05/LL, Chwarel Garth, Minffordd, Penrhyndeudraeth. Cais ar gyfer defnyddio tir i storio, trin ac ailgylchu gwastraff, anadweithiol yn deillio o'r Gwaith Darpariaeth Weledol Eryri.

Cytunwyd i gefnogi'r cais.

**9. Materion Eraill**

**9.1 Coed Moelydd Bach**

Cafodd y Cadeirydd lythyr gan aelodau o'r cyhoedd yn nodi fod cytiau pren a ffordd concrit wedi eu gosod yno heb ganiatâd.

Deallir fod cais ôl-weithredol am osod y cytiau yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, ac nad oes angen caniatâd am y ffordd goncrid.

Bu cwynion hefyd am goed yn cael eu torri yno, a pharti swnllyd.

Deallir fod y mater wedi ei adrodd i Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymchwilio, a bod adran gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn ymwybodol o'r mater.

### 9.2 Gordyfiant Llanfrothen

Cafwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd o ordyfiant mewn amrywiol ardaloedd yn Llanfrothen.

Gan fod y cwynion yn ymwneud yn bennaf efo gordyfiant yn y darnau sydd ym mherchnogaeth Stad Brondanw, penderfynwyd gofyn iddyn nhw edrych ar y mater.

### 9.3 Coeden Eucalyptus B440 Garreg am Rhyd

Mae coeden eucalyptus yn gordyfu ar y ffordd allan o Garreg am Rhyd ar y B4410. Gall fod yn beryglus i ddefnyddwyr ffordd yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i nodi'r pryderon

### 9.4 Llysgennad Heddwch

Cytunwyd i wahodd Sam Bannon, Heddwch ar Waith, i gyfarfod mis Mawrth nesaf y cyngor cymuned, er mwyn trafod gwaith y mudiad a swyddogaeth llysgennad heddwch

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 6 Ionawr 2024 am 7 yr hwyr**